Adroddiad i'r	Cyngor
Dyddiad y cyfarfod	22 Chwefror 2022
Aelod / Swyddog Arweiniol	Y Cyng Brian Jones (Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd), Y Cyng Tony Thomas (Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau), Y Cyng Graham Timms (Cadeirydd Gweithgor Gwleidyddol yr Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol) / Alan Smith (Pennaeth Gwasanaeth BIM a Phrif Berchennog Cyfrifol Rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol)
Awdur yr adroddiad	Andrew Cutts (Rheolwr y Rhaglen Newid Hinsawdd – dros gyfnod mamolaeth)
Teitl	Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol – Y wybodaeth ddiweddaraf am Ddarpariaeth Blwyddyn 1

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth am y cyflawniad a'r cynnydd a wnaed hyd yma yn ystod blwyddyn 1 Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol 2021-2030 (y Strategaeth), ac yn archwilio dewisiadau ar gyfer Gweithgor Gwleidyddol yr Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol a chynefino Aelodau yn dilyn etholiadau Mai 2022.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Ym mis Mawrth 2021, cytunodd Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu i barhau â Gweithgor Gwleidyddol yr Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol hyd at ddiwedd y Cyngor hwn, ac y byddai'r Gweithgor hwn yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor Sir yn ystod Gwanwyn 2022 ar y cynnydd a wnaed hyd hynny, cyn diwedd tymor presennol y Cyngor mewn grym.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma yn ystod blwyddyn 1 o gyflawni'r Strategaeth.

3.2 Cytuno mewn egwyddor i barhau â Gweithgor Gwleidyddol yr Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol yn y Cyngor newydd (2022-2027).

3.3 Rhoi adborth ar y cynllun / dull gweithredu drafft ar gyfer cynefino Aelodau'r Cyngor newydd ar ôl etholiadau mis Mai 2022 ar y rhaglen hon.

3.4 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'i ystyriaethau.

3.5 Ystyried creu arweinydd Cabinet dynodedig ar gyfer Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol, fel yr argymhellwyd gan Weithgor Gwleidyddol yr Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ym mis Gorffennaf 2019, bu i'r Cyngor ddatgan Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol. Yn dilyn hynny, mabwysiadwyd y Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol (2021/22-2029/30) ym mis Chwefror 2021, sy'n ymrwymo'r Cyngor i ddod yn Gyngor Di-garbon Net ac Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030, yn ogystal â lleihau allyriadau carbon o'r nwyddau a'r gwasanaethau rydym yn eu prynu (cadwyn gyflenwi'r Cyngor) 35% erbyn 2030.

4.2 Mae'r Strategaeth yn cynnig trywydd ar gyfer cyflawni nodau 2030. Mae yna nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n cael eu defnyddio i farnu perfformiad y Cyngor o ran cyflawni ei nodau ar gyfer 2030, gan gynnwys: lleihau'r allyriadau carbon y mae'r Cyngor yn eu rhyddhau o wahanol ffynonellau, cynyddu'r carbon sy'n cael ei ddal a'i storio yn y tir y mae'r Cyngor yn berchen arno/yn ei brydlesu ac yn ei reoli, a chynyddu'r cyfoeth o rywogaethau ar y tir y mae'r Cyngor yn berchen arno/yn ei brydlesu ac yn ei reoli.

4.3 Er mai 2021/22 (blwyddyn gyntaf y Strategaeth) yw'r flwyddyn gyntaf o farnu yn erbyn cyflawniad y nodau, mae perfformiad 2020/21 wedi cael ei fonitro ac mae'r canlyniadau i'w gweld yn Atodiad 2. Cafodd hyn ei gynnwys yn Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2020/21 a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 6 Gorffennaf 2021.

4.4 Mae dysgu o 2020/21 ac effaith Covid-19, ynghyd â'r ddealltwriaeth bod angen i ni leihau ein hallyriadau carbon cymaint ag y gallwn ni, wedi arwain at addasu ein trywydd cyflawni wedi'i dargedu o fewn ein nod Di-garbon Net. Mae crynodeb o hyn i'w weld yn Atodiad 3.

4.5 Mae'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol yn rhestru 37 o newidiadau i brosesau polisi a 75 o weithgareddau y bydd y Cyngor yn

ymgymryd â nhw i gyflawni ein nodau ar gyfer 2030. Mae'r holl newidiadau i brosesau polisi a gweithgareddau hyn yn 'eiddo' i Feysydd Gwasanaeth unigol, ac wedi'u rhestru o fewn Cynlluniau Busnes y Gwasanaethau. Nid yw'r rhestr o gamau gweithredu yn sefydlog a gellir ychwanegu ati unrhyw bryd, a bydd rhaid gwneud hynny er mwyn gwella'n barhaus a chyflawni ein nodau ar gyfer 2030. Bydd y Strategaeth yn cael ei hadolygu'n ffurfiol a'i hadfywio nesaf yn 2023/24, fel y cyhoeddwyd yn nogfen y strategaeth.

4.6 Bydd y wybodaeth ddiweddaraf am statws cynnydd Cynlluniau Busnes y Gwasanaethau yn cael eu ceisio bob chwarter, ac maent bellach yn cynnwys camau gweithredu'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol.

4.7 Mae'r Strategaeth yn cael ei chyflwyno fel Rhaglen gydag 8 ffrwd waith oddi tani. O dan bob ffrwd waith, bydd set o brosiectau pwrpasol yn cael eu datblygu a'u cyflawni ym mhob blwyddyn ariannol, yn amodol ar gyllid. Adroddir ar statws y Rhaglen gan ddefnyddio methodoleg COG bob 6 wythnos ar gyfer y rhaglen gyffredinol (cyflawni nodau 2030), ac ar gyfer y prosiectau sy'n cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol benodol honno (2021/22). Y statws COG yn ystod y flwyddyn ar hyn o bryd yw "Oren - Yn Profi Rhwystrau". Ceir canmoliaeth uchel i'r newid sylweddol yng nghyflymder a graddfa'r prosiectau a gyflawnir yn 2021/22 o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, ond mae oedi o ran sefydlu wedi golygu oedi o ran gwireddu buddion sydd wedi arwain at y statws COG Oren (1 yn is na gwyrdd).

4.8 Gweler Atodiad 4 am y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Cyngor ar y rhaglen hon ers y Datganiad o Argyfwng yn 2019, a'r prosiectau a gyflawnwyd ym Mlwyddyn 1, ar ffurf newyddlen, sy'n rhoi enghraifft o'r gwaith blaengar a chanmoladwy.

4.9 Cafodd CSDd ei archwilio gan Archwilio Cymru ym mis Rhagfyr 2020 hyd at fis Mehefin 2021 ar ei allu i gyflawni ei uchelgeisiau amgylcheddol, gan gynnwys sut y mae'r Cyngor yn bwriadu integreiddio, sefydlu, mesur a chyfathrebu ei uchelgeisiau amgylcheddol. Roedd canfyddiadau Archwilio Cymru yn hynod gadarnhaol a gellir gweld rhagor o wybodaeth yn Adroddiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (26 Ionawr 2022).

4.10 Mae Gweithgor Gwleidyddol yr Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol yn argymell bod y grŵp yn parhau yn dilyn etholiad Mai 2022, gan fyfyrio ar yr effaith gadarnhaol y mae gweithgor o'r fath wedi'i gael o weithio gyda swyddogion. Mae Cylch Gorchwyl Gweithgor Gwleidyddol yr Argyfwng Newid

Hinsawdd a Newid Ecolegol i'w weld yn Atodiad 5. Os bydd y Cyngor yn cytuno mewn egwyddor â'r argymhelliad hwn, byddai'r Gwasanaethau Democrataidd yn gofyn i'r grwpiau gwleidyddol, yn dilyn etholiadau mis Mai, enwebu 2 gynrychiolydd ar gyfer y gweithgor a chefnogi'r cyfarfod cyntaf, gan gynnwys enwebu cadeirydd ac is-gadeirydd.

4.11 Mae cynllun amlinellol drafft ar gyfer cynefino Aelodau'r Cyngor newydd yn dilyn etholiadau Mai 2022 ar y rhaglen hon i'w gweld yn Atodiad 6, a chroesawir adborth gan Gynghorwyr ar y Cyngor hwn er mwyn paratoi.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Bydd Blwyddyn 1 y Strategaeth yn gwneud cyfraniad uniongyrchol i'r Flaenoriaeth Amgylcheddol bresennol o fewn Cynllun Corfforaethol 2017-2022 (yn benodol, y targed lleihau carbon o 15% a phlannu 18,000 yn fwy o goed erbyn 2022).

5.2 Mae'n cynrychioli'r ddogfen gyflawni ar gyfer cyflawni nod y Cyngor o fod yn Gyngor Di-garbon Net ac Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030 mewn ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol a ddatganwyd gan y Cyngor yn 2019.

5.3 Y Strategaeth fydd ein cyfraniad ni i bolisi Llywodraeth Cymru i'r sector cyhoeddus fod yn garbon niwtral erbyn 2023, i Gymru fodloni ei tharged cyfreithiol rwymol o leihau allyriadau i fod yn Ddi-garbon Net erbyn 2050, ac yn cefnogi dyletswyddau statudol y Cyngor dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i "geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth".

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Bydd rhai o'r newidiadau a'r camau gweithredu a nodir yn y Strategaeth yn gofyn am fuddsoddiad cyfalaf, eraill yn gofyn am gyllid refeniw a bydd posib cyflawni rhai am ddim cost ychwanegol. Bydd llawer o'r newidiadau a'r camau gweithredu yn arbed arian i'r Cyngor yn yr hirdymor. Bydd pob ymyriad yn cael ei arfarnu'n ariannol yn unigol drwy achosion busnes cyfalaf a drwy gynlluniau a phrosesau cyllideb refeniw. Yn 2021/22, cafodd £200,000 ei ddyrannu ar gyfer staff a £189,000 ar gyfer ad-daliadau benthyciadau darbodus er mwyn ysgogi tua £2m o fuddsoddiad cyfalaf. Mae buddsoddiad pellach o £0.440m yn 2022/23 yn

darparu £0.233m ar gyfer staff ychwanegol i wneud y gwaith angenrheidiol, a bydd y £0.207m sy'n weddill yn ariannu effaith refeniw'r gwariant cyfalaf (benthyca darbodus).

6.2 Ni fydd rhaid i'r Cyngor ddarparu'r holl arian i gyflawni'r Strategaeth ei hun. Rydym yn disgwyl y bydd grantiau gan Lywodraeth Cymru, y Llywodraeth Genedlaethol a chyrff ategol ar gael i helpu ariannu'r gwaith arfaethedig dros y 9 mlynedd. Hyd yma yn 2021/22, mae'r Cyngor wedi denu £849,049 o gyllid allanol i gyflawni ei raglen o waith di-garbon net ac ecolegol gadarnhaol, sydd wedi lleihau'r gofyniad benthyca darbodus ar y Cyngor o'r Rhaglen hon.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1 Mae amddiffyn a gwella lles cenedlaethau presennol a'r dyfodol wrth wraidd Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol CSDd, yn ôl ei natur o drechu newid hinsawdd a newid ecolegol. Gweler Atodiad 1 am adroddiad llawn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol (2020/21 - 2029-30) gydag Aelodau ym mis Medi/Hydref 2020, gyda'r cyhoedd ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2020 ac fe'i mabwysiadwyd yn derfynol gan y Cyngor ym mis Chwefror 2021.

8.2 Mae camau gweithredu o fewn y Strategaeth wedi bod yn destun Craffu yn ystod 2021/22, gan gynnwys yn y Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Medi 2021.

8.3 Cynhyrchwyd y papur hwn ar y cyd â Gweithgor Gwleidyddol yr Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Bydd angen buddsoddiad sylweddol i fynd i'r afael â materion ac uchelgeisiau'r Strategaeth. Mae'n bwysig manteisio i'r eithaf ar ffynonellau cyllid allanol er mwyn helpu lleihau'r effaith ar gyllid y Cyngor. Fel y manylir yn Adran 6, mae'r Gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2022/23 yn cynnwys buddsoddiad o £0.440m. Bydd buddsoddiad pellach yn y tymor canolig a'r hirdymor yn cael ei ystyried yn ystod Proses Cyllideb 2023/24 a thu hwnt, wrth i'r cynlluniau manwl a'r cynlluniau ariannu gael eu llunio.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae'r risgiau sylweddol wedi'u cynnwys yn Atodiad 7.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Gweler Atodiad 8 am y pwerau perthnasol.